

TELERAU AC AMODAU GWASANAETHAU MASNACHOL CYNGOR

1. Ymgorffori Amodau'r Cyngor
Yr Amodau yn hwn yw amodau Cyngor Sir Caerdydd (y Cyngor) o ran y gwasanaethau casglu gwastraff ac unrhyw wasanaethau a ddarperir ar yr amodau canlynol ac eithrio rhai a amrywir gan delerau unrhyw contract a ysgrifennir rhwng y Cyngor a'r Cwsmer.
 2. Gofynion Statudol
Yn unol â thelerau pob contract y Cyngor, mae'n rhaid i'r Cwsmer gydymffurfio â holl ofynion y llywodraeth, statud neu unrhyw awdurdod cyhoeddus yn berthnasol i'r gwasanaeth neu i ddefnydd y Cwsmer o'r cynhwysydd. Yn benodol, bydd y Cwsmer yn gyfrifol dros sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 neu ei hailbasio neu addasu neu unrhyw orchymyn, rheoleiddiad neu ddeddfwriaeth a ddirprwyir dani.
 3. Natur y Deunydd Gwastraff
 - a. Bydd y deunydd gwastraff i'w gasglu a gwaredu o'r math a'r maint a nodir yn y cytundeb a bydd y Cwsmer yn sicrhau na fydd newid sylweddol yn natur y gwastraff yn ystod cyfnod y contract. Ni fydd y Cyngor yn derbyn unrhyw wastraff y mae'n anodd cael gwared arno oherwydd ei faint neu bwysau.
 - b. Mae'r deunyddiau na cheir eu rhoi cynhwysydd heb gydsyniad y Cyngor o flaen llaw yn cynnwys y canlynol:
 - (i) Oergelloedd a rhewgelloedd
 - (ii) Teiars
 - (iii) Teledai, sgriniau ac offer trydanol arall.
 - (iv) Bwrdd plastr
 - c. Ni chaniateir rhoi'r eitemau canlynol yn y cynhwysydd o gwbl:
 - (i) Caniau paent, glud a thiwbiau mastig
 - (ii) Asbestos
 - (iii) Gwastraff clinigol a meddygol
 - (iv) Tiwbiau fflworolau
 - (v) Caniau chwistrellu neu boteli nwy
 - (vi) Gwreiddiau coed
 - (vii) Polau telegraff neu drawstiau rheilffordd
 - (viii) Hylif, yn cynnwys olew
 - (ix) Batris ac asidau
 - (ch) Bydd costau ychwanegol os rhoddir yr eitemau hyn yn y sgip heb ganiatâd y Cyngor.
 4. Addewid y Cwsmer
 - a. Mae'n rhaid i'r Cwsmer roi gwybod i'r Cyngor cyn darparu am unrhyw ofyn penodol sydd gan y Cwsmer o ran iechyd a diogelwch yn y gwaith ac am unrhyw beryglon neu risgiau a allai godi o ganlyniad i'r Cyngor neu ei gyflogeion yn darparu gwasanaeth ar eiddo'r Cwsmer.
 - b. Ni fydd gofyn ar y Cyngor na'i gyflogeion i ddarparu unrhyw wasanaeth nad yw yn nhelerau ac amodau'r contract, ac yn fwyfwy, ni chaiff y Cwsmer yn gofyn i gyflogeion nac asiantau'r Cyngor wneud hynny oni cheir cytundeb blaenorol gan y Cyngor.
5. Gofynion y Cwsmeriaid o Ran Cynwysyddion
 - a. Bydd y Cwsmer yn gyfrifol am roi deunydd gwastraff a enwir yng Nghymal 3, a'r rheiny yn unig, yn y sgip.
 - b. Mae'r Cwsmer yn gwarantu bod ganddo hawl i roi deunydd gwastraff felly yn y cynhwysydd a bydd perchnogaeth ar unrhyw ddeunydd gwastraff yn trosglwyddo i'r Cyngor pan ddechreuir mynd â'r sgip oddi yno, ar yr amod nad yw'r Cwsmer wedi torri ei amodau.
 - c. Bydd yn amod ar y Cwsmer ei fod yn cydymffurfio â, ac yn gwneud y canlynol:
 - (xiii) Cyfrifoldeb y Cwsmer fydd lleoli'r cynhwysydd a dylid ystyried peryglon posibl
 - (xiv) Dylid llwytho'r hol gynwysyddion yn ddiogel ac yn wastad a heb ddeunydd miniog na poeth a allai ddifrodi'r cynhwysydd.
 - (xv) Bydd y Cwsmer yn gyfrifol dros sicrhau na orlwythir y sgip o ran pwysau na chynnwys. Ni ddylid llwytho dros ben y sgip. Os na all y Cyngor fynd â'r sgip oherwydd ei fod wedi ei orlwytho, waeth sut y digwydd hyn, ystyrir mai'r Cwsmer sy'n gyfrifol a bydd yn gyfrifol am gost methu â danfon neu fynd â'r sgip; bydd y gost hon o leiaf 50% cyfanswm cost y sgip. Ceidw'r Cyngor yr hawl i godi costau rhesymol am weithgareddau unioni i wneud yn iawn am ddadlwytho, yn cynnwys ond heb. Ni fydd y Cyngor yn gosod sgip ar briffordd gyhoeddus (yn cynnwys ymylon glaswellt, troedffyrdd neu balmentydd) sydd dan reolaeth yr awdurdodau lleol heb sicrhau yn gyntaf bod yr Awdurdod Priffyrdd wedi rhoi ei ganiatâd dan Adran 139 Deddf Priffyrdd 1980. Ar gais y Cwsmer, bydd y Cyngor yn ceisio'r caniatâd hwnnw a throsglwyddir cost y caniatâd i'r Cwsmer (gweler y rhestr gostau).
 - (xvi) Bydd y Cwsmer yn rhoi tri chôn marcio yn ystod y dydd a thri chôn marcio a goleuadau melyn digonol yn ystod y nos, yn ôl gofynion Deddf Priffyrdd 1980. Bydd y Cwsmer yn sicrhau bod y sgip wedi ei oleuo'n ddigonol pan fo'n dywyll.
 - (xvii) O ran amod 5 (c)(y), bydd y Cyngor yn cynnig conau, goleuadau a gorchuddion sgip priodol

TELERAU AC AMODAU GWASANAETHAU MASNACHOL CYNGOR

(rhwyd neu darpolin) sydd ar gael i'w logi am bris rhesymol. Bydd y Cwsmer yn gyfrifol am yr eitemau hyn trwy gydol y cyfnod llogi. Bydd costau am gyfnod eitemau wedi eu colli/difrodi.

- (xviii) Ni ddylid llosgi unrhyw sbwriel mewn unrhyw gynhwysydd ac ni chaniateir cynnau neu adael i dân gynnau yn y cynhwysydd gan y Cwsmer nag unrhyw un arall.
- (xix) Ni ddylid mynd â'r cynhwysydd oddi ar eiddo'r Cwsmer lle y'i danfonwyd heb ganiatâd ysgrifenedig gan y Cyngor o flaen llaw.
- (xx) Ni chaniateir gosod hysbysebion nac arwyddion enwau nac unrhyw ddyfais arall y Cwsmer ar unrhyw gynhwysydd.
- (xxi) Ni chaniateir tynnu hysbysebion nac arwyddion enwau nac unrhyw ddyfais arall y Cyngor oddi ar unrhyw gynhwysydd.
- (xxii) Bydd y Cwsmer, ar adegau rhesymol, yn caniatáu i'r Cyngor ac unrhyw berson a awdurdodir ganddo i gael mynediad at y cynhwysydd i'w archwilio, profi, addasu, trwsio neu ei gyfnod cyhyd ag y bo hynny'n bosibl ar adegau sy'n gyfleus i'r Cwsmer.
- (xxiii) Bydd y Cwsmer yn sicrhau bod gofod gwag wrth un pen y sgip ar yr adeg y daw'r Cyngor i'w nôl, sydd nid llai na thri deng troedfedd er mwyn i'r Cyngor gael digon o le.

6. Amser Casglu

Pan ddaw'r Cyngor at y Cwsmer i wneud unrhyw ran o'r gwasanaeth, bydd y Cwsmer yn sicrhau bod y cynhwysydd ar gael yn barod i'r Cyngor ei gasglu. Ni fydd yn ofynnol i'r Cyngor wneud unrhyw wasanaeth os yw'r Cwsmer yn torri'r amod hon; fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i godi costau.

7. Telerau'r Gwasanaeth

- a. Nid yw'r Cyngor yn gludwr cyffredin ac nid yw'n contractio felly.
- b. Ni fydd y dyddiad danfon neu gyflawni'r gwasanaeth yn hanfodol a bydd gan y Cyngor hawl i newid dyddiad darparu'r gwasanaeth fel y gwel yn addas.
- c. Bydd cyfnod llogi'r sgip am nid hirach na 28 diwrnod (oni nodid yn wahanol yn yr archeb) ac yna bydd y Cyngor yn nôl y sgip. Nid oed gofyn ar y Cyngor i roi rhybudd cyn nôl y sgip pan fo'r cyfnod 28 diwrnod wedi darfod.
- d. Os nad oes modd i'r Cyngor gyflawni unrhyw wasanaeth ar y dyddiad a roddwyd i'r Cwsmer, oherwydd gwyliau'r banc neu gyhoeddus, torri i lawr neu amgylchiadau nad oedd modd iddo eu rheoli yn rhesymol, bydd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech resymol i gyflawni'r gwasanaetha hynny cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol wedyn.

8. Pris

(c) Bydd y Cyngor yn adolygu'r prisiau a godir yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cyfateb i unrhyw gynnydd yn y gost o waredu. Hysbysir y Cyngor am unrhyw newidiadau.

(d) Bydd y Cyngor yn codi costau rhesymol ar gyfer gweinyddu'r nodiadau trosglwyddo gwastraff.

9. Cyfrifoldeb dros Golled neu Ddifrod

- a. Os oes ar Gwsmer angen gwasanaeth sy'n cynnwys symud cerbyd unrhyw le nad yw ar y briffordd gyhoeddus; bydd y Cwsmer yn rhoi mynediad a lle digonol, diogel ac addas y gellir llwytho a dadlwytho, danfon a chasglu ynddo heb fod perygl o ddifrodi'r cerbyd, y gyrrwr na'r llwyth a heb fod rhwystr i'r briffordd gyhoeddus.
- b. Ystyrir bod gyrrwr cerbyd sy'n darparu gwasanaeth felly dan reolaeth y Cwsmer a'r Cwsmer yn unig fydd yn gyfrifol am unrhyw ddifrod a achosir oherwydd pwysau'r cerbyd neu ei lwyth neu unrhyw geblau, draeniau a thyllau eraill yn y ffordd at ddibenion gwasanaeth, ffyrdd, llwybrau neu unrhyw eiddo arall ar neu dan arwyneb y ddaear a bydd yn indemnio'r Cyngor yn erbyn unrhyw hawliadau o ran hynny neu unrhyw gyfrifoldeb cyfreithiol sy'n codi o'r herwydd.
- c. Ceidw'r Cyngor yr hawl i wrthod cyflawni unrhyw wasanaeth os ystyria y gallai'r gwasanaeth sy'n ofynnol roi unrhyw berson, nwyddau, cerbyd neu eiddo mewn risg.
- d. Mae'r llogwr yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod a achosir tra mae'r cynhwysydd ar log (rydym yn argymhell yswiriant gwerth £1,000).
- e. Bydd y Cyngor yn defnyddio allweddau, codau neu ffobiâu mynediad i fynd i ardaloedd gwastraff diogel; fodd bynnag, ni fydd yn gyfrifol os oes angen rhoi rhai newydd yn eu lle.

10. Cyfyngiadau ar Gyfrifoldeb

- a. Ac eithrio diffygion yn y gwasanaeth y rhydd y Cwsmer wybod amdanynt i'r Cyngor yn ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod wedi dyddiad y gwasanaeth, ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw ddiffyg yn y gwasanaeth boed hynny oherwydd unrhyw weithred, esgeulustod, methiant ar ran y Cyngor neu unrhyw un o'i wasanaethwyr neu asiantau neu fel arall a gwaherddir unrhyw warrant ac amod datganiedig neu ymhlyg trwy hyn.
- b. Yn benodol (heb niweidio naws gyffredinol yr uchod) , ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw hawl, colled neu ddifrod sy'n deillio o'r canlynol:
 - (ii) unrhyw amgylchiadau sy'n codi y tu allan i reolaeth resymol y Cyngor.
 - (iii) unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan neu

TELERAU AC AMODAU GWASANAETHAU MASNACHOL CYNGOR

- unrhyw weithrediad neu ddiffyg gweithredu gan y Cyngor neu ei wasanaethwyr neu asiantau.
- (iv) unrhyw ddiffyg cynhenid neu gudd na allai'r Cyngor ei ddarganfod na'i gywiro yn rhesymol.
- (v) Unrhyw dor-amod sylweddol gan y Cwsmer o unrhyw un o'r amodau y mae angen iddo gydymffurfio â nhw neu weithredu arnynt.
- c. Rhydd y Cyngor bob cyfle rhesymol i'r Cyngor i gyfnewid, trwsio neu unioni unrhyw ddiffyg yn y gwasanaeth.
- d. Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol dan unrhyw amgylchiadau am golli elw neu gytundebau neu am ganlyniadau colled o unrhyw fath.
- e. Os oes diffyg mewn gwasanaeth a hynny'n gyfrifoldeb ar y Cyngor, rhoddir credyd priodol ar anfoneb arferol nesaf y Cwsmer.
- f. Ni fydd y Cyngor ond yn gyfrifol am ddychwelyd ac ad-dalu stoc a ddanfonwyd i unrhyw gwsmer yn y 90 diwrnod diwethaf.
- g. Ni fwriedir i unrhyw beth yn hwn effeithio ar ac ni fydd yn effeithio ar hawliau'r Cwsmer dan Ddeddf Telerau Contract Annheg 1977.
- h. Pan nad oes modd mesur pwysau cywir oherwydd methiant technolegol, defnyddir pwysau cyfartalog.
11. Indemnïo'r Cwsmer
- a. Bydd y Cwsmer yn indemnïo'r Cyngor am unrhyw golled neu unrhyw ddifrod i unrhyw gynhwysydd a/neu gonau, goleuadau neu orchudd a roddir ar log, sy'n digwydd yn ystod neu oherwydd parhad y contract â'r Cwsmer.
- b. Yn ystod y Cyfnod Llogi, mae'r sgip dan reolaeth ac ym mediant y Cwsmer. Bydd y Cwsmer yn ad-dalu'r Cyngor gwerth unrhyw golled neu niwed i'r sgip tra mae hwnnw ar log iddo waeth sut achoswyd y golled neu'r difrod (ac eithrio traul normal). Bydd y Cwsmer hefyd yn indemnïo'r Cyngor yn llawn o ran unrhyw hawliad oherwydd niwed i bersonau neu i eiddo oblegid defnyddio'r sgip tra mae ar log iddo sut bynnag y digwydd hynny.
- c. Bydd y Cwsmer yn indemnïo'r Cyngor o ran unrhyw hawliadau y mae'r Cwsmer yn gyfrifol
- amdanant yn gyfreithiol neu am unrhyw gost ychwanegol sy'n codi o ddefnyddio unrhyw gynhwysydd neu ddiffyg talu am ddefnyddio unrhyw gynhwysydd neu dor-amod gan y Cwsmer o unrhyw amod yn hwn y mae'n ofynnol i'r Cwsmer gydymffurfio â hi neu weithredu yn ei sgîl.
- d. Cyngorhorir i gwsmeriaid domestig sicrhau bod eu hyswiriant tŷ yn rhoi sicrwydd priodol.
12. Gwrthdaro ag Amodau'r Cwsmer
- Ystyrir bod pob amod yn archeb Cwsmer sy'n anghydfurfio ag unrhyw un o'r amodau hyn yn amherthnasol i unrhyw archeb a roddir gyda'r Cyngor oni chytuna'r Cyngor drwy fynegi hynny yn ysgrifenedig wrth gydnabod yr archeb.
13. Trosglwyddo
- Ni chaiff y Cwsmer aseinio neu drosglwyddo buddiannau'r contract hwn.
14. Atal Gwasanaeth
- (a) Ceidw'r Cyngor yr hawl i wrthod a/neu wahardd gwasanaeth i'r Cwsmer os yw unrhyw un o'r amodau canlynol yn berthnasol:
- (i) Os na chydymffurfir ag unrhyw ofynion cyfreithlon, yn arbennig adran 34 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.
- (ii) Os oes arian yn ddyledus i'r Cyngor wedi 28 diwrnod ar ôl y dyddiad talu.
- (iii) Os na chydymffurfir â thelerau ac amodau'r contract.
- (iv) Os oes unrhyw ymddygiad ymosodol neu afresymol tuag at gyflogai'r Cyngor.
15. Terfynu'r Contract
- (a) Caiff y Cwsmer ganslo'r gwasanaeth trwy roi o leiaf 2 ddiwrnod gwaith o rybudd i'r Cyngor.
- (b) Bydd peidio â rhoi rhybudd digonol yn arwain at orfod talu'r costau sy'n codi o'r herwydd.
- (c) Os gwrthodir Trwydded gan yr Awdurdod Priffyrdd ac ni ellir gosod y sgip ar y briffordd gyhoeddus, bydd y Cyngor yn canslo'r gwasanaeth(au) ac yn rhoi gwybod i'r Cwsmer.